

Grŵp Cynllunio Ynni Rhanbarthol Gogledd Cymru

Rydym wedi cyfrannu at waith Grŵp Cynllunio Ynni Rhanbarthol y Gogledd.

Nodau Ilesiant



Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Trafnidiaeth Cymru wedi mynychu dau weithdy ynni rhanbarthol yn y Gogledd sy'n ymroi i gyflawni'r amcanion ynni carbon isel canlynol: Sicrhau lle'r Gogledd fel un o'r lleoliadau mwyaf blaenllaw ar gyfer cynhyrchu ynni a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig ag ynni.

Sicrhau bod gan y Gogledd seilwaith modern o ansawdd i ddarparu ar gyfer a hwyluso twf cynaliadwy yn y sector ynni carbon isel a hyrwyddo arloesedd gyda technoleg newydd.

Ffyrdd o weithio



Mae prosiectau sy'n rhan o'r rhaglen yn cynnwys:

- Prosiect pwerdy Trawsfynydd
- Prosiect Morlais
- Rhwydweithiau ynni lleol clyfar
Canolfan ragoriaeth ynni carbon isel.

Roedd yr eitemau a gyflwynwyd ac a drafodwyd yn y gweithdai'n cynnwys:

- Cefndir gweledigaeth ynni
- Modelu di-garbon net
- Dull cywasgu absoliwt
- Modelu senario
- Uchafbwyntiau'r weledigaeth ynni



Dyma ffordd arloesol o drafod gweledigaeth a chyfraniadau'r sector cyhoeddus a'r grwpiau busnes tuag at amcanion arbed ynni cyffredin

Gary Blewitt

Rheolwr Prosiect Cynorthwyol